COFNODION CYFARFOD MISOL CYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Hydref 9fed, 2019 am saith o'r gloch

PRESENNOL

O. Hefin Roberts (Cadeirydd), G. Ian Evans (Is-gadeirydd), Edward O. Griffith, Wyn Griffiths, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris, William B. Williams, Cynghorwyr Dewi W. Roberts a John B. Hughes (Cyngor Gwynedd – Sylwebwyr)

YMDDIHEURIADAU

Angharad Correia-Martins, Alun Jones, Owi Lloyd-Jones

ABSENNOL

Erfyl W. Roberts

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Datganodd Cynghorydd O. Hefin Roberts fuddiant yng nghais cynllunio C19/0872/39/LL – Estyniad i annedd, ardal parcio/troi a mynedfa newydd - 2 Tŷ'r Ysgol, Lôn China, Mynytho, gan ei fod yn perthyn i'r ymgeisydd.

2. **CADARNHAU COFNODION**

   Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Fedi 11eg a'r 25ain, 2019 yn gywir.

3. **EITEMAU BRYS (Cadeirydd/Clerc) – Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau**

   Ni dderbyniwyd dim.

4. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

   Anfonwyd sylwadau ar y ceisiadau a ganlyn yn ystod y gwyliau:

C19/0770/39/LL	Estyniad unllawr ochr a ffenestr gromen gefn – 15 Cae Pin, Lôn Garmon, Aber-soch **– Cefnogir**
C19/0872/39/LL	Estyniad i annedd, ardal parcio/troi a mynedfa newydd – 2 Tŷ'r Ysgol, Lôn China, Mynytho **– Cefnogir, gan y bydd yn rhyddhau lleoedd parcio ar gyfer rhieni Ysgol Foel Gron [Datgan Diddordeb – OHR]**

5. **MATERION YN CODI**

   a) **Toiledau Cyhoeddus**

i) ***Ymestyn Oriau Agor y Giatiau***
Atebwyd nad oes sicrwydd pa mor ymarferol fyddai ymestyn yr amser agor yn ystod y tymor gwyliau oherwydd bod diwrnod gwaith y glanhawr yn eithaf hir eisoes. Gellid chwilio am rywun arall ar ôl holi barn y glanhawr. Penderfynwyd ymholi ymhellach a dweud y dymunid eu gadael ar agor tan wyth o'r gloch yn ystod y prif wyliau – y Pasg, Gŵyl Fai, Sulgwyn a gwyliau'r haf.

b) **Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd – Mickey's Boatyard, Marchros**
Derbyniwyd ateb oddi wrth yr uchod yn nodi y dibynna'r cwestiwn o ddefnyddio pwerau gorfodaeth ar dystiolaeth. Yn ogystal, dibynna llawer ar ganlyniad y cais am ganiatâd cynllunio o ran y pwerau gorfodaeth fydd ar gael i Adran Gwarchod y Cyhoedd. Ychwanega bod digon o dystiolaeth i wrthod ceisiadau am gynnal gweithgareddau trwyddedig dros yr haf nesaf. Ystyrir y dystiolaeth sŵn a gyflwynwyd o ran y posibilrwydd o gyflwyno rhybudd gorfodaeth niwsans statudol maes o law.

c) **Hunan*iaith* – Grŵp Cynllunio Ffyniant y Gymraeg**
Trefnwyd bore coffi yn Neuadd Aber-soch ar Hydref 15fed, diwrnod Shw' Mae Su' Mae, i sgwrsio â dysgwyr. Dosberthir y pecynnau o amgylch y siopau yn y prynhawn hefyd.

ch) **Cyfoeth Naturiol Cymru – Cytundeb Torri'r Foel**
i) Derbyniwyd copi o'r cytundeb drafft a anfonwyd at y Prif Swyddog – nid oes newid i'r un cyfredol; ceisir talu'r ad-daliad cyn gynted â phosibl.
ii) Derbyniwyd ymholiad am ffensio rhan o'r Foel ar gyfer pori – iawn mewn egwyddor ond, angen holi beth yw'r sefyllfa o ran caniatâd. Penderfynwyd gofyn i'r ymholwr wneud cais ysgrifenedig, gan amgáu cynllun o'r bwriad er gwybodaeth a thrafodaeth bellach.

6. **MYNWENT**

a) **Prisiau Claddu Newydd**
Ni lwyddwyd trefnu cyfarfod o'r Is-bwyllgor i drafod yr uchod.

b) **Yr Hen Fynwent**
Ni dderbyniwyd ateb oddi wrth yr Henaduriaeth yn dilyn mynegi pryder am y posibilrwydd o brinder lle parcio ar gyfer angladdau pe gwerthid y capel.

7. **CAEAU CHWARAE**

a) **Offer Newydd – Prisiau Goliau**
Derbyniwyd pris o £52.00 am beipen 62mm a £10.50 am gorneli – penderfynwyd ei drafod yng nghyfarfod mis Tachwedd rhag ofn y bydd angen un ar gyfer Cae Chwarae Mynytho hefyd, gan fod un wedi diflannu yno ar ôl gosod y trac beiciau. Torrwyd y coed helyg yng Nghae Chwarae Mynytho.

b) **Paentio'r Offer a Lloches Bws Parciau, Mynytho**
Penderfynwyd gofyn i baentiwr arall wneud y gwaith.

c) **Archwiliad Iechyd a Diogelwch**
Derbyniwyd yr adroddiad a'r anfoneb (gweler cofnod 15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod) am yr uchod. Gweithredir ar yr adroddiad.

ch) **Mainc Solar**
Ni lwyddwyd ymweld â Chonwy i dynnu llun yr un sydd ar y cei yno na'r ddwy arall yn Llangernyw a Llanfair Talhaearn. Bwriedir cysylltu hefyd â Chlercod y ddau Gyngor Cymuned i holi am eu defnydd.

8. **CYFRIFON**

a) **Archwiliad Ariannol Allanol 2018 – 2019**
Arddangoswyd rhybudd diwedd yr archwiliad.

b) **Taliadau i Gynghorwyr 2017 – 2018**
Derbyniwyd ffurflen ar gyfer yr uchod trwy Un Llais Cymru ar Fedi 30ain, sef y dyddiad y dylid fod wedi ei chyflwyno i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Fe'i harddangosir a'i rhoi ar y wefan, yn unol â'r gofynion statudol a hysbysu'r swyddog priodol o bryd y derbyniwyd hi.

c) **Llif Arian**
Dosbarthwyd copi i bawb ond, ni aethpwyd trwyddo. Bydd angen trafod cyllideb y flwyddyn ariannol nesaf yng nghyfarfod mis Tachwedd.

9. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Materion yn y Gymuned/Ymholiadau Cynllunio/Gorfodaeth**
Unwaith yn rhagor ni dderbyniwyd ateb oddi wrth y Swyddogion Cynllunio.

b) **Cytiau Glan y Môr**
Yr un cofnod â'r uchod – ni dderbyniwyd ateb oddi wrth y Swyddogion Cynllunio nac Arweinydd y Cyngor.

10. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Biniau Baw Ci**
Gosodwyd bin ychwanegol yn Nant-y-Big erbyn hyn.

b) **Materion yn y Gymuned**
Ymatebwyd i'r materion a godwyd yng nghyfarfod mis Medi – trosglwyddwyd y cais o roi llinellau melyn ar un ochr i Allt Marchros at sylw'r Rheolwr Traffig a Phrosiectau ond, ni dderbyniwyd ateb oddi wrtho hyd yma. Rhoddir sylw i'r gwaith haearn, manolau ac ati yn dilyn yr ail-wynebu a wnaed yn Aber-soch yn ystod yr wythnos nesaf.

c) **Torri Gwellt o fewn 30 m.y.a. Mynytho**
Atebwyd bod yr uned waith ar ei hôl hi o ran gwaith rhaglen yr uchod ac, o ganlyniad, mae pentrefi mewn sawl cymuned yn yr un sefyllfa. Bwriedir gwneud ail doriad cyn gynted â phosibl.

11. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) **Torri'r Llwybrau**

Derbyniwyd e-bost oddi wrth Dewi Wyn Owen, Uwch Reolwr Hawliau Tramwy, yn nodi y gwneir y gwaith a ganlyn ar lwybrau'r gymuned yn ystod y mis nesaf:

i) ***Rhif 10 – Bryn Ffynnon i Fryn Celyn Isaf*** – newid camfeydd am giatiau
ii) ***Rhif 12 – Riffli*** – amnewid y gamfa enfawr ger y lôn bost am stepiau a giât; cwblhawyd ond, deil y conau atal traffig ar y safle ac ni agorwyd y llwybr
iii) ***Rhif 29 – Rhianfa i Fodlondeb –*** newid camfeydd am giatiau
iv) ***Rhif 42 – Tyddyn Glasdwr/Tŷ Newydd*** – o'r trac mynediad i lawr at groesfan Llwybr 51; gwaith torri coed a llystyfiant er mwyn paratoi gwaith gwella arwyneb
v) ***Cae Pin*** – gwaith torri coed/llystyfiant o'r trac i fyny'r stepiau
vi) Clirio mwd o gwmpas llwybrau sliperi pren a'u hymestyn fel bo angen.

b) **Cwyn**

Cafwyd gair â'r cwynwr a chredir mai rhan o'r uchod (Rhif 42) yw'r llwybr – anfonwyd yr wybodaeth at DWO eisoes.

12. **TRAETHAU**

Nid oedd dim i'w drafod.

13. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C11/0870/39/LL	Estyniad deulawr ochr **–** 21 Maes Awel, Aber-soch – **Archifwyd Mawrth 13eg, 2016**
C19/0436/39/LL	Codi estyniad ar gefn tŷ annedd **–** Ty'n Llan, Llangian – **Caniatawyd ag amodau**
C19/0532/39/RC	Cais i ddiwygio Cytundeb 106 er tynnu cyfyngiad meddiannaeth gweithiwr amaethyddol/coedwigaeth - Cae Berllan, Mynytho **– Caniatawyd yn ddiamodol**
C19/0707/39/LL	Cais i gynnal addasiadau ac ymestyn eiddo preswyl **–** 5 Benarfryn, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C19/0735/39/DA	Diwygiad ansylweddol i Ganiatâd C18/1049/39LL er cynnwys ardal gysgodol at flaen y cwt glan y môr, cytuno lliw'r cwt yn unol ag Amod 5 **–** Cwt Glan y Môr Marchros, Bwlchtocyn – **Caniatawyd ag amodau**
C19/0820/39/DA	Diwygiad di-faterol i Ganiatâd C18/0895/39/LL er cynyddu maint ffenestr llawr cyntaf ar yr edrychiad dwyreiniol ac addasiadau i ddefnyddiau ar yr edrychiad dwyreiniol **–** Pentre Bach, Lôn Pentre Bach, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**

14. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Fields in Trust – Diogelu Mannau Hamdden***

Partnera'r uchod â thirfeddianwyr, gan gynnwys Cynghorau Cymuned a Thref i ddiogelu tir trwy Weithred Gyflwyno, sef ymrwymiad cyfreithiol rhwymol sy'n diogelu tir am byth. Gwarchoda ei raglen Green Spaces for

Good unrhyw barc, cae chwarae neu warchodfa natur sy'n hygyrch i'r cyhoedd.

b) **Adran Trwyddedu – Cais Trwydded Eiddo: The Sandbar Restaurant, The Warren, Aber-soch**
Angen sylwadau erbyn fory (Hydref 10fed) – dim gwrthwynebiad.

c) **Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru – Datblygu Strategaeth Amgylcheddol Hirdymor**
Ymgynghoriad cyhoeddus a ddaw i ben ar Ragfyr 31ain.

ch) **Mabon ap Gwynfor, Ymgeisydd Plaid Cymru Dwyfor Meirionnydd – Sefydlu Canolfan Diagnosis Cancr yng Ngwynedd**
Cais yn gofyn am gefnogaeth i'w alwad ar Lywodraeth Cymru agor yr uchod – cefnogir.

15. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau
Cadarnhawyd talu cyflog mis Hydref (Rh/S 002249) a chostau gweinyddol (Ebrill – Awst, Rh/S 002246) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Delwedd Cyf. – £743.43 (Rh/S 002248 – Cynnal Gwefan y Cyngor)
b) Wicksteed Leisure Ltd. – £108.00 (Rh/S 002250 – Archwiliad Iechyd a Diogelwch y Caeau Chwarae)
c) E-on – £45.70 (D/U – Trydan y Toiledau)

Derbyniadau
a) Toiledau – £84.70 (Tâl Mynediad – £29.80, £41.00, £7.70, £6.20)
b) G.D. Roberts a'i Fab – £270.00 (Bedd Newydd)

16. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Tachwedd 13eg, 2019 am saith o'r gloch